Duw Gwyleidd-dra

Adnodau agoriadol:

"Pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith,
rhaid iddo fod yn was i chwi,
a phwy bynnag sydd am fod yn flaenaf
yn eich plith, rhaid iddo fod yn gaethwas i bawb.
Oherwydd Mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei
wasanaethu ond i wasanaethu,
ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer." *Marc 10: 43 – 45*

"Darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun,
a dyrchefir pob un sy'n ei ddarostwng ei hun." *Luc 18: 14*

Geiriau agoriadol:

Y mae cyfrinach gwir fawredd i'w ganfod, nid mewn grym a golud-bydol, nid mewn amlygrwydd a chlod, ond mewn gwyleidd-dra, gostyngeiddrwydd a pharodrwydd i weini ar eraill.

Yng ngoleuni dysgeidiaeth ac esiampl Iesu, meddyliwch pa newidiadau sydd eu hangen yn eich agwedd ac yn ansawdd eich bywyd chi.....

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ddysgu gwyleidd-dra Iesu.....

Gweddi agoriadol:

Arglwydd Iesu, daethost i'n plith
nid i dra-arglwyddiaethu ond i wasanaethu;
nid i ormesu ond i garu;
nid i orfodi ond i gymell.
Yr wyt yn ein cymell ninnau
i gerdded llwybr dy ostyngeiddrwydd;
i geisio dy ewyllys di, nid ein hewyllys ni;
i fyw i eraill, nid i ni ein hunain;
i ganfod y nerth sydd mewn gwendid

a'r grym sydd mewn gwyleidd-dra.
Cymorth ni i ymateb i ti. Amen.

Emyn:

Yn wylaidd plygu wnawn
I frenin yr holl fyd,
Cans Ti, ein Tad, sydd inni'n borth
A'n cymorth cry' o hyd.

Cawn rhwng y muriau hyn
Fyfyrio'n hir a dwys
Am dy drugaredd di a'th ras,
A'r deyrnas fawr ei phwys.

Daethom o sŵn y byd
I'th demel dawel di
I brofi yno ryfedd rin
Y gwin â'n cynnal ni.

O fewn dy dŷ, ein Duw,
Y mae tangnefedd drud
A'n nertha ni i droi yn ôl
I'r llym, herfeiddiol fyd.

Yng nghwmni teulu'r ffydd
Ymbiliwn yn gytûn
Am inni gael yr uchel fraint –
Dy gwmni di dy hun. *Gwilym R. Jones.*

Tôn: Pen – Parc. (J. T. Rees)

Darllen: Marc 10: 35 – 45.

Gweddi:

Dyro i mi, O Arglwydd, galon ddiysgog,
na all unrhyw gariad annheilwng ei darostwng;
dyro i mi galon anorchfygol,
na all unrhyw drallod ei blino;
dyro i mi galon gywir,
na all unrhyw ddiben annheilwng ei denu ar grwydr.
Dyro i mi hefyd, O Arglwydd fy Nuw,
y deall i'th adnabod di,
y dyfalbarhad i chwilio amdanat ti,
y doethineb i ddod o hyd i ti,
a'r ffyddlondeb i'th gofleidio di yn y diwedd,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd, Amen.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Mae'r darlleniad a glywsom yn dod o efengyl Marc. Mae'r un darlleniad i'w gael yn efengyl Mathew hefyd. Ond mae'na un gwahaniaeth sylfaenol rhwng y ddau ddarlleniad. Ym Mathew, mam y brodyr sy'n dod at Iesu gyda'i chais. Ym Marc, y brodyr eu hunain sy'n deisyfu. A sylwch nid cwestiwn sydd yma gan y fam na'r brodyr ond gorchymyn!

Gweddi:

Arglwydd,
Sut mae dehongli'r
gwahaniaeth
rhwng
Mathew a Marc?
Mathew, efallai,
yn cadw ar
yr hogiau.
Cais annheilwng
i ddisgybl?
Marc am i weld gyda'r
brychau i gyd.
Ffafrio Marc
ydyn ni.
Nid seintwar
o saint
oedd y disgyblion
ond hogia cyffredin.
A dyna sy'n codi'n
calonnau ninnau
heddiw.
Pobl debyg i ni
wyt ti eisiau
i newid y byd.
Defnyddiaist
grafwyr
fel Iago ac Ioan

i newid y byd.
Defnyddia ninnau,
yn ein methiannau
a'n gwendidau
a'n rhwystredigaethau
i newid y byd.
Ond, gad i ni gofio,
ein bod yn dy gwmni di
bob amser.
Nid yn ôl ein
galluoedd a'n medrau'n
hunain,
ond yn rhan o
dy dîm di.
Arglwydd, dyma ni
fel y gweli di ni. Amen.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Emyn: 757 Caneuon Ffydd.

Anerchiad:

Cyn i ni ddechrau pardduo a chondemnio y brodyr, Iago ac Ioan, mae'n well i ni atgoffa'n hunain o'u safle ymhlith y Deuddeg. Roedden nhw'n hanu o deulu cefnog – busnes eu hunain a'u tad Sebedeus yn cadw gweision. Cawn gofnod o hyn gan Marc ei hun, ".....a chan adael eu tad Sebedeus yn y cwch gyda'r gweision....." (Marc 1: 20). Roedden nhw hefyd ymhlith y tri, nhw a Phedr oedd gyda Iesu yn wynebu argyfyngau mawr ei weinidogaeth e.e. yn dilyn cyffes Pedr yng Nghesarea Philipi, "Dyma Iesu'n cymryd Pedr ac Iago ac Ioan ei frawd, ac yn mynd â hwy i fynydd uchel o'r neilltu" (Mathew 17: 1) a hefyd yng Ngethsemane, "ac fe gymerodd gydag ef Pedr a dau fab Sebedeus" (Mathew 26: 37). Mae'n amlwg fod ganddyn nhw statws arbennig ymhlith y Deuddeg. Dynion uchelgeisiol oedd y brodyr. Ond dynion oedden nhw wedi camddeall yn llwyr ystyr cenhadaeth a chenadwri

Iesu. Yng nghyd- destun rhagfynegi ei farwolaeth a'i atgyfodiad mae'r brodyr yn gwneud eu cais. Amseru gwael os bu o gwbl!

A beth oedd ateb Iesu? Dim cerydd ond cwestiwn neu ddau, "A allwch chwi yfed y cwpan yr wyf fi yn ei yfed, neu gael eich bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi ag ef?" Dau ddarlun o fyd yr Iddew – 'cwpan' a 'bedydd'. Cynrychiola'r 'cwpan' y bywyd a'r profiadau mae Duw yn eu rhannu â dyn. Nid cyfeirio at ei fedydd ei hun y mae Iesu ond yr hyn sy'n digwydd mewn bedydd sef y syniad o suddo neu blymio o dan y dŵr. Daw cwestiwn Iesu yn fwy byw a threiddgar, "Fedrwch chi wynebu'r profiadau erchyll fydd yn rhaid i mi eu hwynebu? Fedrwch chi wynebu plymio i ddyfnderoedd artaith a dioddefaint?" Mae'r cwestiynau hyn yn dwysbigo. Safon y gogoniant yw safon dioddefaint y Groes.

Cododd cynddaredd ymhlith y deg, "Aethant yn ddig wrth Iago ac Ioan." Cododd yr hen ymrafael 'pwy oedd y mwyaf'? (Marc 9: 34). Awr argyfwng! Mor hawdd fyddai i'r gweddill gefnu ar Iesu a'i adael. Ymresymodd â nhw. Cawsant gyfle i wahaniaethu rhwng ffordd y byd a ffordd Duw. Sylfaen mawredd yn byd yw grym a phŵer. Grym dros ddynion, awdurdod dros bobl. Yn nheyrnas Dduw nod amgen mawredd yw gwasanaeth. Nid tra arglwyddiaethu ar eraill i ddod â nhw o dan rym a phŵer unigolyn oedd nod y Deyrnas.

Gwrandewch ar yr hanesyn hwn am Felix Mendelssohn

Eisteddai'r organydd wrth yr organ. Droeon yn ystod y bore roedd wedi ceisio chwarae'r darn cerddoriaeth oedd o'i flaen. Mae'n bur debyg ei fod wedi chwarae'r darn o leiaf hanner cant o weithiau a bob tro roedd wedi gwneud camgymeriad. Roedd yn ddarn mor anodd ond eto'n ddarn byrlymus, cynhyrfus. Darn o waith y cerddor Mendelssohn oedd y darn anodd hwn. "Un cynnig eto cyn i mi fynd adref i gael cinio," meddai wrtho'i hun. Digwyddodd edrych yn y drych oedd wrth ochr yr organ. Gwelai rywun yn eistedd yng nghefn yr eglwys. "O diar," meddai, "dydw i ddim eisiau i neb wrando arna i'n gwneud cymaint o gamgymeriadau."

Pan oedd yr organydd yn hel meddyliau fel hyn dechreuodd y dyn yng nghefn yr eglwys gerdded yn araf tuag ato. "Esgusodwch fi," meddai'r dieithryn, "roeddwn yn digwydd cerdded heibio'r eglwys pan

glywais sŵn yr organ yn chwarae. Tybed fuasech chi'n gadael i mi chwarae'r darn yna ar yr organ?"

"Na," oedd ateb pendant yr organydd, "mae hon yn organ ddrudfawr iawn a does gan neb hawl i chwarae'r organ ond yr organydd. A fi ydi'r organydd." Roedd ei ateb mor derfynol. Credai fod y dieithryn yn ur digywilydd iawn. Penderfynodd y dieithryn eistedd yn y sedd agosaf i'r organ. Roedd yr organydd wedi'i gynhyrfu. Dechreuodd yr organydd chwarae'r darn unwaith eto. Ceisiodd anghofio fod y dieithryn yn eistedd wrth ei ymyl. Roedd yn dal i wneud camgymeriadau – mwy os rhywbeth.

Gofynnodd y dieithryn iddo unwaith eto. "Ga i roi cynnig ar y gerddoriaeth yna? Wna i ddim drwg o gwbl i'r organ. Mae gen i ychydig o brofiad.....ychydig bach!"

Meddyliodd yr organydd, Petawn i'n gadael iddo chwarae ychydig yna mae'n siŵr o fynd wedyn.

"Iawn," meddai'r organydd. "Rhowch gynnig arni am ychydig funudau."

"Diolch," meddai'r dieithryn yn gwrtais. Cyffyrddodd â'r organ. Llanwodd y sŵn yr eglwys drwyddi. Eisteddodd yr organydd wrth ei ochr i wrando ar y gerddoriaeth fwyaf gogoneddus. Rhyfeddai'r organydd. Roedd y dieithryn yn gallu chwarae'r darn anodd. Doedd yna 'run camgymeriad. Ond, yn fwy na hynny hyd yn oed, roedd y dieithryn yn chwarae'r darn â'i lygaid ar gau. Y fath sŵn gorfoleddus.

Yn sydyn tynnodd y dieithryn ei ddwylo oddi ar yr offeryn. Cododd ar ei draed a diolchodd i'r organydd am y cyfle. "Diolch," meddai mewn llais mwyn.

Roedd yr organydd yn methu siarad. "Diolch....diolch....yn fawr iawn i chi. Mae'n amlwg eich bod yn organydd penigamp a hefyd....yn gerddor heb ei ail. "Ga i ofyn beth yw eich enw?"

O! fy enw i ydi Felix Mendelssohn," meddai'r dieithryn gan gerdded i fyny'r eglwys tua'r drws. Yr oedd yr organydd yn gegrwth.

Gweddi:

Helpa, ni o Dduw
i gael gwared
â phob

hunanhyder,
ymffrost
a meddyliau
trahaus.
Helpa, ni o Dduw
i dy ddewis di
yn feistr
ar ein bywydau.
Un a ddewisodd
drostan croes
yn hytrach nag
esmwythyd
a moethusrwydd
fel gorseddfainc.
Un a fu farw
mewn gwarth
dros bawb. Amen.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Emyn: 514 Caneuon Ffydd.

Myfyrdod:

Yn y distawrwydd gadewch i Grist lenwi'ch bywydau fel na fyddwch yn syrthio i fagl Iago ac Ioan.

Gwelais innau ddarlun Holman Hunt o "Oleuni'r Byd" yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul. Adroddir amryw o storïau am y darlun hwn. Eisteddais o'i flaen a gwelais mai'r Crist gogoneddedig sydd yno, yn ei wisg laes. Ffurf coron o ddrain sydd ar ei ben, ond bod y drain wedi troi yn berlau. Y mae ei law ar y drws, a'r lamp yn ei law arall, a'i llewyrch yn llifo i fyny at ei wyneb. Sylwais hefyd ei bod yn nos, a bod sêr yn ymddangos rhwng y cymylau. Tyfai planhigion y tu allan i'r drws, yn arwydd nad oedd dim tramwyfa wedi bod tuag ato ers cryn amser. Glaswellt oedd yno ac nid llwybr. Safai Ef a'i sandalau yn y glaswellt.....yn disgwyl. Gallaswn dybio bod y darlun yn awgrymu nad yw'r drws y daw Crist i mewn drwyddo yn cael ei ddefnyddio yn aml

iawn. Drwy ochr ysbrydol ein natur y daw Ef i mewn atom, – drws cariad, ymgysegriad ac ewyllys da. Yr ydym ninnau yn byw cymaint i nwydau a chwantau a mater a byd, ac anodd iddo Ef yw cyrraedd i'n calon dros y llwybrau lleidiog hyn.

Ben Davies, Panteg.

Cwestiynau i'w trafod:

Pan fyddwn ni'n trafod gwyleidd-dra oni fyddwn ni'n meddwl am berson gwan, llipa a di-asgwrn-cefn? Ai person felly yw person gwylaidd?

Ydi o'n bosibl i'r person cefnog, ariannog, pwysig yn y gymdeithas fod yn berson gwylaidd? Beth yn union yw gwyleidd-dra? Ydi bod yn wylaidd yn un o hanfodion y Deyrnas?

Fyddech chi'n mynd ati i feirniadu Iago ac Ioan? Onid oedd Iesu ei hun wedi'u cyflyru i feddwl eu bod yn frodyr breintiedig?

Oes raid i'r gwylaidd a'r gostyngedig ddioddef? Onid yw hyn yn rhan o fod yn ddisgybl i Iesu?

Fedrwch chi feddwl am bobl yn eich cymdeithas chi sy'n bobl wylaidd? Sut bobl ydyn nhw mewn difri? Ydyn nhw'n bobl anodd closio atyn nhw?

Emyn: 317 Caneuon Ffydd.

Y Fendith:

"Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo;
os clyw rhywun fy llais ac agor y drws,
dof i mewn ato, a bydd y ddau ohonom
yn cydfwyta gyda'n gilydd." *Datguddiad 3: 20*
Tyrd i'n bywydau, Arglwydd
a boed i'th fywyd di
ein llenwi
a'n gwneud yn fwy tebyg
i ti. Gwna ni yn gyfryngau bendith
yn ein gwasanaeth i eraill. Amen.